# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Churchstoke Short Stay**

**Trefaldwyn**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Churchstoke Short Stay

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartrefi Cymru Co-operative Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 3 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 08/08/2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Churchstoke Short Stay yn darparu gwasanaeth seibiant i oedolion mewn amgylchedd cartrefol â digon o adnoddau, gyda chymorth gan staff profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n dda.

Mae cofnodion gofal ac asesiadau risg yn fanwl er mwyn bodloni canlyniadau personol y bobl. Dylid rhoi'r cyfle i'r bobl gyfrannu at eu cyfarfod adolygu er mwyn ceisio eu barn a holi am eu dewisiadau.

Mae'r bobl yn mwynhau eu hamser yn Churchstoke ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r bobl yn hoffi'r ystafelloedd ac yn mwynhau dewis ym mha un yr hoffent aros, lle y bo modd. Mae'r amgylchedd wedi cael ei adnewyddu rywfaint a chroesawyd hyn.

Mae'r staff yn canmol y rheolwr ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r hyfforddiant yn drylwyr ac yn gyfredol. Mae'r staff yn cael y cyfle i gyfarfod yn ffurfiol â'r rheolwr at ddibenion goruchwylio ac arfarnu, ond nid yw hyn bob amser yn digwydd mor aml â'r gofyn. Cawsom sicrwydd gan y darparwr fod camau'n cael eu cymryd yn hyn o beth.

Caiff y gwasanaeth ei gefnogi gan reolwr rhanbarthol ac Unigolyn Cyfrifol sy'n ymweld yn rheolaidd i siarad â'r staff a goruchwylio'r gwasanaeth. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau, pan fydd yn cwblhau'r Adroddiad ar Ansawdd y Gofal, ei fod yn cyfeirio'n uniongyrchol at y gwasanaeth cofrestredig.

## Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi i ddewis sut maent am dreulio eu hamser yn Churchstoke. Mae rhai o'r bobl yn mynd i'r gwaith a'r coleg tra bo eraill yn ystyried eu harhosiad fel gwyliau, gan fwynhau gweithgareddau gyda'r staff a theithiau allan. Caiff dewisiadau personol y bobl eu parchu, ac mae dogfennau'n dangos y gofynnir i'r bobl am eu harferion dyddiol, eu hoff bethau a'u cas bethau.

Caiff anghenion iechyd a llesiant y bobl eu diwallu gan staff profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Mae cyfathrebu da rhwng y gwasanaeth, teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol allanol er mwyn sicrhau parhad gofal i'r bobl.

Caiff y bobl eu cadw'n ddiogel drwy hyfforddi'r staff i fod yn ymwybodol o arwyddion niwed neu gamdriniaeth bosibl a'r camau i'w cymryd. Mae polisïau diogelu yn cefnogi gwybodaeth a phrosesau er mwyn sicrhau bod y darparwr yn gweithio gyda bwrdd diogelu'r awdurdod lleol i ymdrin â phryderon.

Cynhelir asesiadau risg mewn perthynas ag arosiadau seibiant i ystyried statws brechu'r unigolyn a pha mor agored i niwed ydyw, er mwyn sicrhau bod yr ymweliadau'n ddiogel. Mae'r staff yn cefnogi'r bobl i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'r ffrindiau yn ystod eu harhosiad a chaiff cysylltiadau eu dogfennu mewn nodiadau dyddiol. Mae'r staff wedi'u hyfforddi i ddefnyddio cyfarpar sy'n helpu'r bobl gyda'u symudedd a'u cysur. Mae'r gwasanaeth yn hygyrch ac mae digon o le ynddo. Gall y bobl gyrraedd yr ardaloedd awyr agored yn rhwydd ac mae cerbyd hygyrch i helpu'r bobl i fynd i'r gymuned.

## Gofal a Chymorth

Mae'r ffeiliau gofal yn cynnwys gwybodaeth fanwl a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys gan yr unigolyn, y teulu a'r awdurdod cyllido. Mae ffurflen asesu anghenion ar waith i nodi meysydd cymorth a chaiff ei hadolygu a'i diweddaru cyn pob sesiwn seibiant. Er bod y dogfennau'n fanwl, dylai'r bobl a'u cynrychiolwyr gyfrannu at eu hadolygiadau er mwyn rhannu eu barn a'u dewisiadau. Mae'r asesiadau risg yn glir, a cheir canllawiau mewn cynlluniau cymorth er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyson. Gwelsom dystiolaeth o gefnogi unigolyn i gymryd risgiau cadarnhaol ac, er bod y staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i ddiogelu'r bobl, maent hefyd yn parchu eu hawl i wneud dewisiadau. Mae'r sefydliad yn symud i system cynllunio gofal electronig a'r bwriad yw bod y system hon yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, bod yn fwy cynhwysol a gwella prosesau cadw cofnodion.

Mae'r staff gofal yn wybodus ac yn brofiadol, maent yn hyderus yn eu rôl ac yn ymfalchïo yn y gwaith a wneir ganddynt. Roedd rhyngweithiadau â'r bobl yn barchus, yn garedig ac yn hwyliog. Mae'r staff yn deall anghenion y bobl am eu bod yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod y cynlluniau sydd ar waith yn bodloni canlyniadau personol y bobl.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith. Dywedodd un aelod o'r staff, *"I can't praise Cartrefi enough for what they do for people and staff, people are treated well."*

Gofynnir i'r bobl neu eu cynrychiolwyr beth yr hoffent ei wneud yn ystod eu harhosiad yn Churchstoke. Mae rhai o'r bobl yn hoffi cadw at eu trefn arferol drwy fynd i'r gwaith neu'r coleg, tra bo eraill yn hoffi meddwl am eu harhosiad fel gwyliau, gan fwynhau diwrnodau allan i'r ardal leol neu'r traeth. Anogir y bobl i aros yn annibynnol o ran gofal personol, meddyginiaeth a thasgau tŷ dyddiol. Mae'r staff yn cefnogi ac yn annog y bobl i ddatblygu sgiliau newydd er mwyn cyflawni nodau personol.

Caiff y bobl eu diogelu drwy weithdrefnau recriwtio diogel, hyfforddiant, a chanllawiau o bolisïau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus wrth fynegi pryderon i'r rheolwr a bod rhywun y gallant gysylltu ag ef am gymorth ar gael bob amser. Caiff digwyddiadau eu cofnodi a chymerir camau priodol. Mae arbenigwr ymddygiadol yn y sefydliad sy'n helpu i adolygu digwyddiadau a thrafod cynlluniau cymorth.

Caiff meddyginiaeth ei rheoli'n ddiogel yn y gwasanaeth. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel mewn cabinet meddyginiaeth i'r staff ei rhoi i'r bobl neu, i'r rhai sy'n cymryd eu meddyginiaeth eu hunain, mae cyfleuster y gellir ei gloi ym mhob ystafell. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar feddyginiaethau ac yn cwblhau asesiadau blynyddol o gymhwysedd.

## Yr Amgylchedd

Mae gwasanaeth Churchstoke mewn byngalo mawr ar ystad breswyl dawel. Mae tair ystafell wely, un ystafell ymolchi a rennir, un toiled hygyrch a sawl ardal gymunedol, gan gynnwys cegin.

Mae digon o adnoddau yn y gwasanaeth i allu diwallu anghenion symudedd y bobl ac mae teclynnau codi, gwelyau proffilio a chymhorthion eraill ar gael, a chaiff y rhain eu gwasanaethu'n rheolaidd. Rhoddir gwybod am bryderon cynnal a chadw i'r landlord ac eir i'r afael â nhw yn brydlon. Cafwyd cyfnod o ailaddurno lle prynwyd dillad gwely, llenni a dodrefn ystafell wely newydd, gyda chynlluniau pellach i baentio a phrynu dodrefn newydd yn y lolfa.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd i sicrhau eu bod yn wybodus ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar. Gall y bobl ddewis cael bath neu gawod mewn ystafell wlyb fawr gyda theclyn codi yn sownd yn y nenfwd er mwyn mynd i mewn i'r bath. Mae'r bobl yn cael budd o gerbyd hygyrch er mwyn mwynhau profiadau cymdeithasol.

Gall y bobl ddewis treulio amser yn y gegin/ystafell fwyta neu'r lolfa gymunedol. Gellir cyrraedd ardal batio yn hawdd hefyd sydd â golygfeydd o gefn gwlad. Caiff yr ardaloedd awyr agored eu cynnal a'u cadw'n dda ac mae'r ardaloedd sbwriel yn lân ac yn daclus.

Gwneir gwiriadau iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r bobl. Dilynir gweithdrefnau atal a rheoli heintiau, sy'n cynnwys glanhau'n drwyadl rhwng ymweliadau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael budd o staff sy'n cael eu cefnogi yn eu rôl. Mae'r staff yn cael hyfforddiant cynhwysfawr ar amrywiaeth o bynciau, y mae rhai ohonynt yn benodol i unigolion ac yn cael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol allanol. Mae'r holl staff yn cwblhau'r un hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y gofal yn gyson ac i gefnogi'r bobl ni waeth pa fath o wasanaeth seibiant y maent am ei ddefnyddio. Mae'r staff yn mynychu cyfarfodydd tîm rheolaidd ac yn cyfathrebu gan ddefnyddio ap ar eu dyfeisiau llaw sy'n benodol ar gyfer y gwaith, yn ogystal â llyfr cyfathrebu yn y gwasanaeth.

Mae datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn dweud wrth y bobl am y gwasanaeth a'r cyfleusterau. Mae'r ddwy ddogfen yn hygyrch, ac mae'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y copïau diweddaraf yn y gwasanaeth. Mae copïau o bolisïau a gweithdrefnau ar gael yn y gwasanaeth a gellir cael gafael ar rai eraill ar-lein. Mae copi o'r fframwaith Mwy na geiriau, y ddogfen Cynnig Rhagweithiol ac adroddiad diweddaraf AGC ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae rhai o'r staff yn siarad Cymraeg.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau ansawdd y gwasanaeth drwy archwiliadau ansawdd mewnol gan y tîm rheoli. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â Churchstoke i siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff. Mae hwn yn gyfle i adolygu dogfennaeth a thrafod datblygiadau i'r gwasanaeth.

Nid yw'r Adroddiad ar Ansawdd y Gofal yn cyfeirio at Churchstoke nac yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n benodol i'r gwasanaeth cofrestredig. Noda'r darparwr y gall hyn fod oherwydd bod y ddarpariaeth seibiant wedi bod ar gau yn ystod y pandemig. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ofynnol a gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid yw'r staff yn cael eu goruchwylio na'u harfarnu o fewn yr amserlenni gofynnol. | Newydd |
| 80 | Nid yw'r adroddiad ar Ansawdd y Gofal yn cyfeirio'n uniongyrchol at y gwasanaeth cofrestredig nac yn cynnwys gwybodaeth sy'n benodol iddo. | Newydd |
| 16 | Ni welsom dystiolaeth fod y bobl na'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/01/2023